Canlyniadau Eisteddfod Llandudoch 2024

Eisteddfod fywiog fu Eisteddfod Llandudoch eleni, gyda thri o weithgareddau yn ystod yr wythnos.

Yn gyntaf, cafwyd noson i wobrwyo cystadlaethau llên a chelf y plant yn y Cartws, Llandudoch. Glenda Jones, Aberteifi oedd yn pwyso a mesur y llên, a daeth yr arlunydd lleol, Anne Cakebread, i fwrw golwg dros y gwaith celf. Rhoddodd y ddau feirniad eu sylwadau ar y gwaith, a dosbarthwyd y gwobrau a'r tystysgrifau i'r rhai a oedd yn bresennol. Braf oedd clywed canmoliaeth y beirniaid i safon gyffredinol y gwaith, gan longyfarch pob cystadleuydd.

Yr ail noson oedd y beirniadaethau llên a Thalwrn y Beirdd yng ngofal Emyr Davies, Aberporth a Ceri Wyn Jones, Aberteifi. Yn Ysgol Gynradd Llandudoch, bu'r ddau wrthi'n ddiwyd a bywiog am tua dwy awr, cyn i bawb fwynhau cwpaned a lluniaeth ysgafn a baratowyd gan y pwyllgor eisteddfod. Timau lleol oedd yn y Talwrn, sef Tîm Beca, a dau dîm a ffurfiwyd o ddosbarth cynganeddu Ceri Wyn Jones yn Aberteifi - Tîm y Merched a Thîm Bois y San. Wedi gornest ddifyr, Bois y Sân enillodd.
Bu nifer dda o gystadleuwyr yn rhoi cynnig ar y cystadlaethau llenyddol, a chanmolodd Emyr Davies y safon drwyddi draw, gan roi canmoliaeth uchel mewn sawl cystadleuaeth.

Ymlaen wedyn at y Dydd Sadwrn, a'r eisteddfod ei hun. Arfon Griffiths o Lanuwchllyn nawr, ond a fagwyd yn Llandudoch, oedd llywydd y dydd eleni. Nid yn unig y cawsom araith ddiddorol ganddo, yn sôn rhyw ychydig am ei atgofion o dyfu lan yn Llan'doch, ond ef hefyd a ganodd gân y cadeirio, gan ei fod bellach yn denor o fri ac yn aelod o'r pedwarawd 'Tri Gog a Hwntw' ac o Gôr Godre'r Aran. Gan nad oedd llawer o drigolion Llandudoch wedi ei glywed yn canu o'r blaen, barnodd pwyllgor yr eisteddfod y byddai hyn yn gyfle da iddo ganu ar lwyfan ei blentyndod.

Y beirniaid cerdd oedd Pat Jones, Chwilog (gynt o Gastell Newydd Emlyn) a Meinir Richards, Llanddarog ; Geraint Hughes, Peniel fu'n gyfrifol am y llefaru. Geraint Wilson-Price, o Dysgu Cymraeg Gwent, a fu'n pwyso a mesur ymdrechion llenyddol y dysgwyr.

Roedd y ddau gyfeilydd â gwreiddiau dwfn iawn yn yr ardal, sef Angharad James o ardal Llantwd, ac Iwan Teifion Davies, sy'n enedigol o Landudoch, ond bellach yn byw yng Nghaerfyrddin. Gwerthfawrogwyd eu gallu a'u gwaith caled gydol y dydd, gan berfformwyr a chynulleidfa fel ei gilydd.

Bu'r Eisteddfod leol yn hynod lwyddiannus, gyda chefnogaeth gref o ran safon a niferoedd oddi wrth Ysgol Llandudoch. Braf oedd gweld nifer sylweddol o blant yr ysgol yn cystadlu yn unigol ac mewn partïon, ac fe gawsant gynulleidfa gref i wrando arnynt, gan i'w rhieni droi allan i lanw'r neuadd yn sesiwn gyntaf y prynhawn. Mae'r ysgol a'i thîm o athrawon a staff yn haeddu eu llongyfarch nid yn unig ar y nifer uchel o blant a ddaeth i'r llwyfan, ond ar safon 'caboledig' eu perfformiadau - dyna'r gair a ddefnyddiodd un o'r beirniaid.

Bardd y Gadair eleni oedd Richard Lloyd Jones o Fethel, ger Caernarfon am awdl fer ar y testun 'Cysgodion'. Fe ddaeth i'r brig gyda chanmoliaeth uchel mewn cystadleuaeth gref oddi wrth 12 o feirdd eraill. Cyn-athro yw'r bardd, a fu 'n gweithio yng Nghaerdydd ac Ynys Môn. Mae'n aelod o dîm Talwrn y Beirdd Llanrug, ac wedi ennill nifer o gadeiriau - ond hon oedd yn gyntaf yn Sir Benfro. Mae ei lygaid yn awr ar y tair eisteddfod arall!

Enillydd Tlws Llenyddiaeth yr ifanc oedd Erin Trysor, o ardal Aberystwyth. Roedd yn un o naw a gystadlodd, gyda phob un bron yn deilwng o ennill y wobr. Ond roedd hiwmor a bwrlwm ysgrifennu Erin wedi plesio'r beirniad, Emyr Davies, a'i dramodig hi ddaeth i'r brig. Nid hon yw ei buddugoliaeth gyntaf gan iddi ddod i'r brig yn yr Urdd ac yng nghystadlaethau barddonol Barddas yn y gorffennol.

Y Canlyniadau

Cystadlaethau lleol

Llefaru unigol oed Blwyddyn 2 ac iau. 1af: Jacob Webb, Llandudoch; cydradd 2il: Afan Ladd, Llandudoch a Isaac Cobb, Llandudoch; 3ydd: Tomos Roberts, Eglwyswrw
Unawd oed Blwyddyn 2 ac iau. 1af: Jacob Webb, Llandudoch; 2il:Isaac Cobb a Afan Ladd, Llandudoch; 3. Tomos Roberts, Eglwyswrw
Llefaru unigol Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. 1af: Anni Foulkes-Roberts, Llandudoch
Unawd Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. 1af:Anni Foulkes-Roberts, Llandudoch ; 2il: Ffion Thomas, Eglwyswrw; 3ydd: Scarlett Rouet, Llandudoch.
Llefaru unigol Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. 1af: Leila Mundy-Kearns, Llandudoch; 2il: Leila Powell, Cilgerran; 3ydd: Teleri Birch, Cilgerran
Unawd Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. 1af: Leila Powell, Cilgerran; 2il:Evie Towe; 3ydd: Elsie Birch, Cilgerran
Unawd Alaw Werin hyd at Flwyddyn 6. 1af: Brooke Thomas, Llandudoch; 2il: Ffion Thomas, Eglwyswrw; 3ydd: Kynon Franklyn, Cilgerran
Grŵp llefaru hyd at Flwyddyn 6. 1af: Ysgol Llandudoch.
Unawd piano hyd at Flwyddyn 6. 1af: Ffion Thomas, Eglwyswrw.
Unawd unrhyw offeryn cerdd (eithrio'r piano) hyd at Flwyddyn 6. 1af: Ffion Thomas, Eglwyswrw; 2il: Leila Powell, Cilgerran ac Evie Towe, Llandudoch ; 3ydd: Ffion Fenrich, Cilgerran ac Ethan Dunkeld, Cilgerran
Parti/Côr hyd at Flwyddyn 6. 1af: Ysgol Llandudoch
Gwobr Her Nantypele i'r perfformiad gorau gan unigolyn yn y cystadlaethau lleol: Anni Foulkes Roberts, Ysgol Llandudoch

Cystadlaethau llenyddol y plant:
Plant oed Cyfnod Sylfaen: 1af: Jacob Jones, Eglwyswrw; 2il: Tomos Roberts, Eglwyswrw; 3ydd: Iona Evans, Eglwyswrw
Blynyddoedd 3 a 4: 1af: Annes Euros, Llangybi, Gwynedd; 2il: Cai Jones, Eglwyswrw; 3ydd: Nia Morris, Eglwyswrw
Blynyddoedd 5 a 6: Stori neu ddisgrifiad. 1af: Miriam Grim, Cwm Gwaun; 2il: Lili Williams, Llangolman ; 3ydd: Erin Medi Roberts, Bow Street, Aberystwyth
Barddoniaeth oed Cyfnod Sylfaen. 1af: Nansi Kerr, Eglwyswrw; 2il: Tomos Selby, Eglwyswrw; 3ydd: Dion Hughes, Eglwyswrw
Barddoniaeth Blynyddoedd 3 a 4. 1af: Megan Wyn Bellis, Eglwyswrw; 2il: Cai Jones, Eglwyswrw; 3ydd: Carina Read, Eglwyswrw
Barddoniaeth Blynyddoedd 5 a 6. 1af: Miriam Grim, Cwm Gwaun; 2il: Morgan Davies, Eglwyswrw; 3ydd: Arthur Thomas, Eglwyswrw
Gwobr Her W.R.Smart i'r llenor ifanc mwyaf addawol: Miriam Grim, Cwm Gwaun

Cystadlaethau celf y plant

Oed meithrin neu dderbyn. 1af Kushla Waygood, Llandudoch; 2il: Amalie Day, Aberporth; 3ydd: Kit Bell, Aberporth.

Blwyddyn 1 a 2. 1af: Jacob Jones, Eglwyswrw; 2il: Tomos Robert, Eglwyswrw; 3ydd: Bradley Jones, Aberporth

Blwyddyn 3 a 4. 1af: Molly Llewellyn, Llandudoch; 2il: Carina Read, Eglwyswrw; 3ydd: Olivia Dunnell, Aberporth.

Blwyddyn 5 a 6. 1af: Leila Mundy-Kearns, Llandudoch; 2il: Leila Powell, Cilgerran; 3ydd: Cynan Makepeace, Llandisilio.

Ffotograffiaeth: Blwyddyn 6 ac iau. (Un llun). 1af: Tomos Roberts, Eglwyswrw; 2il: Tomos Roberts, Eglwyswrw; 3ydd: Carina Read, Eglwyswrw.

Tlws Coffa Kenneth Mower i'r arlunydd mwyaf addawol : Leila Mundy-Kearns, Llandudoch

Gwobr arbennig Anne Cakebread i'r ffotograff orau: Tomos Roberts, Eglwyswrw

Cystadlaethau agored oed cynradd

Llefaru unigol Blwyddyn 1 a 2. 1af: Ifan Morris, Llanfihangel-ar-arth; 2il: Gwern Bowen, Boncath; 3ydd: Magi John, Llandisilio

Unawd Blwyddyn 1 a 2. 1af: Ifan Morris, Llanfihangel-ar-arth; 2il: Magi John, Llandidsilio; 3ydd: Gwern Bowen, Boncath

Gwobr Her Calon lfanc Llandudoch i'r perfformiad llwyfan gorau hyd at Flwyddyn 2: Ifan Morris, Llanfihangel-ar-arth

Llefaru unigol Blwyddyn 5 a 6. 1af: Celyn Rhys Davies, Llandyfrïog; 2il: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog; 3ydd: Miriam Grim, Cwm Gwaun

Unawd Blwyddyn 5 a 6. 1af: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog; 2il: Miriam Grim, Cwm Gwaun

Unawd Alaw Werin hyd at Flwyddyn 6. 1af: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog; 2il: Miriam Grim, Cwm Gwaun

Canu emyn hyd at Flwyddyn 6. 1af: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog

Unawd Cerdd Dant hyd at Flwyddyn 6. 1af: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog; 2il: Miriam Grim, Cwm Gwaun

Unawd piano hyd at Flwyddyn 6. 1af: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog:

Unawd unrhyw offeryn cerdd 1af: Celyn Rhys Davies, Llandyfrïog

Gwobr Her Iwan a Sian Davies, Isfryn, i'r perfformiad llwyfan unigol hyd at Flwyddyn 6: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog

Cystadlaethau oed uwchradd a than 26 oed

Llefaru unigol dan 16 oed. 1af:Gwion Bowen, Boncath; 2il: Awel Grug Lewis, Rhydaman

Unawd dan 16 oed. (Cwpan Her y diweddar Miss Mair Evans) . 1af: Gweni Edwards, Rose Bush; 2il: Ianto Evans, Abergwaun; 3ydd: Fflur McConnell, Aberaeron

Unawd Alaw Werin dan 16 oed. 1af: Gweni Edwards, Rose Bush; 2il: Lucy Warhurst, Aberteifi ; 3ydd: Awel Grug Lewis, Rhydaman

Canu Emyn dan 16 oed. 1af: Ianto Evans, Abergwaun; 2il: Gweni Edwards, Rosebush; 3ydd: Lucy Warhurst, Aberteifi

Unawd piano dan 16 oed. 1af: Lleucu Haf, Blaenporth; 2il: Ianto Evans, Abergwaun; 3ydd: Emma Warhurst, Aberteifi

Unawd unrhyw offeryn cerdd 1af: Lleucu Haf, Blaenporth; 2il: Ianto Evans, Abergwaun; 3ydd: Awel Grug Lewis, Rhydaman

Gwobr Arbennig Merched y Wawr Llandudoch i'r perfformiad llwyfan gorau gan unigolyn oed Uwchradd dan 16 oed : Lleucu Haf, Blaenporth
Unawd 16 a than 19 oed. 1af: Cerys Rogers, Treffgarn Owen; 2il: Ifan Evans, Abergwaun ;
Unawd 19 a than 26 oed. 1af: Ffion Thomas, Crymych
Unawd Alaw Werin 16 a than 26 oed. 1af: Ffion Thomas, Crymych
Unawd Piano 16 a than 26 oed. 1af: Ffion Thomas, Crymych
Unawd unrhyw offeryn cerdd 16 a than 26 oed. 1af: Ifan Evans, Abergwaun
Deuawd 12 a than 26 oed. 1af: Emma a Lucy Warhurst, Aberteifi ; 2il: Efa ac Erin, Drefach Felindre.

Cystadlaethau agored

Tlws Coffa Mair Garnon James: Llefaru neu gyflwyno darn digri. 1af: Fflur McConnell, Aberaeron; 2il: Gwion Bowen, Boncath
Cân o unrhyw sioe gerdd 1af:Ffion Thomas, Crymych; 2il: Ffion McConnell; 3ydd: Emma Warhurst, Aberteifi
Canu emyn 12 a than 60 oed. 1af: Ffion Thomas, Crymych; 2il: Ifan Evans a Ianto Evans, Abergwaun
Darllen darn o'r ysgrythur ar y pryd. 1af: Maria Evans, Rhydargaeau; 2il: Gwion Bowen, Boncath.
Cystadleuaeth lwyfan i ddysgwyr 1af: Kate Smith, Nanhyfer
Prif gystadleuaeth lefaru – 1af: Gwion Bowen, Boncath; 2il: Maria Evans, Rhydargaeau
Cystadleuaeth Côr Llandudoch: 1af: Côr Meibion Taf; 2il: Ysgol Gerdd Ceredigion; 3ydd: Côr Blaenporth
Yr Hen Ganiadau 1af: Ffion Thomas, Crymych ; 2il: Barry Powell, Llanfihangel y Creuddyn; 3ydd: Efan Williams, Bronant
Her Unawd. 1af: Barry Powell, Llanfihangel y Creuddyn; 2il: Ffion Thomas, Crymych; 3ydd: Evan Williams, Bronant; 4ydd Robert Jenkins, Llanfihangel-ar-arth

Cystadlaethau Llenyddol

Cystadleuaeth y Gadair: Richard Lloyd Jones, Bethel, Caernarfon

Telyneg: Rachel Phillips James, Boncath

Soned: Terwyn Tomos, Llandudoch

Cyfres o benillion telyn neu dribannau : John Meurig Edwards, Aberhonddu

Englyn: Rachel Phillips James, Boncath

Cerdd gynganeddol: Terwyn Tomos, Llandudoch

Limrig: Roy Evans, Trewyddel

Cân ddigri: Peter Hughes Griffiths, Caerfyrddin

Stori fer: Rhian Williams

Cystadleuaeth CLEBRAN (Papur Bro'r Preseli): Trefor Huw Jones, Pontypridd

Emyn: Trefor Huw Jones Pontypridd

Talwrn y Beirdd : Tîm Bois y Sân

Cystadlaethau llenyddol yr ifanc

Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc i gystadleuwyr hyd at 21 oed: Erin Trysor, Aberystwyth

Darn o ryddiaith 11- 16 oed: Hywyn Euros, Pwllheli, Gwynedd
Darn o ryddiaith 16 -26: Tesni Peers, Rhosllannerchrugog
Darn o farddoniaeth 16 – 26: Tesni Peers, Rhosllannerchrugog

Cystadlaethau llenyddol i ddysgwyr

Lefel Mynediad 1af: Yvonne Reid, Stamford

Lefel Sylfaen 1af: Sara Wilmhurst

Lefel Canolradd 1af: Kate Smith, Nanhyfer

Lefel Uwch: 1af: Anne May, Llanddewi Felffre

Limrig 1af: Meic Whan, Aberdaugleddau;

Cerdd acrostig 1af: Meic Whan, Aberdaugleddau

Tlws Llenyddol y Dysgwyr: Anne May, Llanddewi Felffre